

Crynodeb o Newidiadau Allweddol

2026/27

1 Cyd-destun

1.1 Mae'r Brifysgol yn adolygu ei Rheoliadau, ei Pholisïau a'i Gweithdrefnau Academaidd yn flynyddol. Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r newidiadau allweddol sydd wedi cael eu gwneud ar gyfer y flwyddyn academaidd 2026/27. Mae'r holl newidiadau wedi cael eu llywio gan adborth a gafwyd gan staff, myfyrwyr a phartneriaid, ac a gymeradwywyd drwy strwythur llywodraethu academaidd y Brifysgol.

1.2 Bydd y Rheoliadau Academaidd yn berthnasol i'r holl fyfyrwyr sydd wedi cofrestru gyda'r Brifysgol.

2 Rheoliadau Academaidd

Newid
Wedi ymgorffori proses eithriadau ar gyfer myfyrwyr na allant ymuno â'r rhaglen erbyn y dyddiad cau o bythefnos. "Nodwyd fel gofyniad gan fod nifer o achosion yn mynd y tu hwnt i'r dyddiad cau o bythefnos ac nid oes proses ar waith i reoli hyn, y geiriad arfaethedig fel y'i gwelir yn Ymrestriadau Adran B.
Wedi llunio diffiniadau'r brifysgol o gyflwyno o bell (dysgu o bell) / dysgu cyfunol / hybrid a HyFlex. Mae cyflwyno o bell / cyfunol / hybrid / HyFlex yn cael eu defnyddio'n anghyson fel termau ar draws y Brifysgol. Mae hyn yn creu risg cydymffurfio ac anhawster o ran pennu a yw rhaglen yn hygyrch i fyfyrwyr rhyngwladol. Mae diffiniadau ar gyfer defnydd academaidd yn cael eu darparu yn y Cyd-destun Adran A: 7.4 Rhaglenni a Dyfarniadau. D.S. Diffiniadau ffi/benthyciad i'w cynnwys yn y Rheoliadau Ffioedd yn ôl yr angen.
Egluro bod myfyrwyr y mae strwythur eu rhaglen yn ei gwneud yn ofynnol iddynt symud ymlaen i rai modiwlau lefel uwch, cyn i'r Bwrdd Cynnydd benderfynu ar gynnydd rhwng lefelau, yn gwneud hynny ar eu menter eu hun. Mae hyn gan na fydd y bwrdd wedi cael ei gynnal cyn i'r gwaith o gyflwyno'r modiwlau lefel uwch hynny ddechrau. Mae hyn yn rhywbeth a oedd yn cael ei weld â rhaglenni carlam 2 flynedd ynghynt, ond bellach gydag asesiadau yn ystod y flwyddyn a strwythurau rhaglen eraill, mae'r angen am ddatganiad mwy cyffredinol yn ofynnol.
Wedi egluro bod rhaid i farc traethawd hir fod mewn dosbarth uwch, oni bai nad yw'r rhaglen yn cynnwys modiwl ymchwil/traethawd hir unigryw, ar gyfer gradd Meistr gydag a heb Ymarfer Uwch. Cysoni'r Radd Meistr a'r Meistr ag AP (TPG-J).
Egluro na all myfyriwr fynd yn ei flaen i'r lefel nesaf heb gwblhau'r modiwlau lefel llawn a llusg yn gyntaf. Cafodd hyn ei nodi'n glir yn y fersiynau blaenorol o'r Rheoliadau cyn 2023 ac angen eu rhoi yn y Rheoliadau newydd.
Egluro na all myfyriwr fynd yn ei flaen i'r lefel nesaf heb gwblhau'r modiwlau lefel llawn a llusg yn gyntaf. Cafodd hyn ei nodi'n glir yn y fersiynau blaenorol o'r Rheoliadau cyn 2023 ac angen eu rhoi yn y Rheoliadau newydd.
Cael gwared ar wireb ynghylch trothwyon 55% a 65% ar gyfer dosbarthiadau dyfarniadau. Dim angen am y pwyntiau bwled ynghylch

Newid
trothwyon 55% a 65% ar gyfer dosbarthiadau dyfarniadau gan eu bod yn nodi beth sy'n wir yn y tablau yn unig.
Egluro bod rhaid i'r holl fodiwlau gael eu pasio ar yr ymgais gyntaf am Ragoriaeth a hefyd ar gyfer y Teilyngdod, yn TPG-J
Egluro nad oes unrhyw Dystysgrif Ôl-raddedig gyda dyfarniad AP ymadael, ond mae PGDip gydag AP. Bellach yn dangos beth sy'n ofynnol ar gyfer y dyfarniad ymadael. Roedd hwn ar goll a diffyg manylion yn ei gylch yn y rheoliadau er yr angen am eglurder.
Wedi cywiro'r meini prawf dyfarnu AHO i sicrhau cywirdeb. Mae'r datganiadau angen eu cywiro i ddangos teitl, gofyniad credyd a'r elfen ymarfer proffesiynol ar gyfer y dyfarniad llawn.
Wedi newid i "Mae'r modiwl wedi'i eithrio rhag digolledu gan ei fod yn rhan o'r modiwlau sydd gyda'i gilydd yn ffurfio'r credydau bloc ymchwil. Bydd eich Manyldeb Rhaglen yn rhoi manylion ynghylch pa fodiwlau penodol y mae hwn yn berthnasol iddynt." Roedd angen newid hwn o nodi bloc ymchwil 60 credyd, gan nad oedd hyn bob amser yn wir yn dibynnu ar faes y pwnc a'r fformat cyflwyno.
Wedi newid geiriad y Dyfarniad ar ôl Marwolaeth i drydydd person ac egluro y bydd cyflawniad rhannol yn rhoi dyfarniad llawn os yw'r tîm pwnc yn cefnogi hynny. Nid oedd y geiriad blaenorol yn briodol ac nid oedd cyflawniad rhannol yn cael ei gydnabod yn llawn.
Adran unigryw ar gyfer Diplomâu a Thystysgrifau Cenedlaethol Uwch, gan gynnwys: - Eglurhad ynghylch dim digolledu ar gyfer HNC/HND. - Ychwanegu cyfeiriad amlwg at gynnydd HNC/HND. - System bwyntiau ddiwygiedig a chyfrifiadau angenrheidiol ar gyfer HNC/HND.
Egluro'r gwahaniaeth rhwng cyfnodau astudio a chyfnodau hiraf ar gyfer cofrestru, yn ogystal â'r hyn y mae amgylchiadau eithriadol yn ei olygu yng nghyd-destun Adran a B. Mae dryswch ynghylch y derminoleg a'r estyniadau i'r cyfnodau prysuraf hyn wedi dangos yr angen am y diwygiadau hyn.
Wedi cywiro bod y trothwy ar gyfer blynyddoedd ailadrodd ddim yn cynnwys/cyfateb i 80 credyd, ond yn uwch/y tu hwn i 80 credyd. Dryswch blaenorol ynghylch a oedd yn hafal i ac yn uwch neu ychydig yn uwch na 80 credyd ar gyfer blynyddoedd ailadrodd.
Egluro'r dull ar gyfer pan fo'r cyfnod cofrestru hiraf wedi dod i ben. Roedd angen eglurder ynghylch bod rhaid i fyfyrwyr wneud cais newydd fel myfyriwr newydd, yn hytrach nag ail-ymrestru, os ydynt yn ceisio ailymuno â rhaglen y tu allan i'w uchafswm cyfnod cofrestru gwreiddiol ar ôl iddynt dynnu'n ôl yn wirfoddol o'r rhaglen honno.